

Adroddiad effaith: Cronfeydd Sir y Fflint



Cynnwys

	Tudalen
Newyddion	3
Hanes a Throsolwg	6
Adroddiad ariannol	8
Crynodeb o'r grantiau a ddyfarnwyd	13
Astudiaethau achos	19

Cefndir y Gronfa

Diweddariad Sefydliad Cymunedol Cymru

Ar drothwy trydedd flwyddyn o ansicrwydd economaidd, mae'n bleser gennym ddatgan bod Sefydliad Cymunedol Cymru wedi parhau i dyfu, gan ein galluogi i gefnogi miloedd o sefydliadau y mae angen cymorth dirfawr arnynt yn ystod y cyfnod anodd hwn, er bod effaith barhaus y pandemig wedi parhau i'n cadw ar flaenau ein traed. Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, gwnaethom gefnogi dros 400 o grwpiau ac unigolion, ledled pob sir yng Nghymru, a dosbarthwyd dros £1.9 miliwn o gyllid.

Ym mis Ebrill 2021, gwnaethom ailddechrau ein trefniadau 'busnes fel arfer', gan ddychwelyd at ein hamserlen arferol o agor a chau cronfeydd a rhaglenni ar adegau penodol drwy gydol y flwyddyn.

Fodd bynnag, cyn agor pob rhaglen, gwnaethom achub ar y cyfle i adolygu'r gronfa a lle y bo'n bosibl addasu'r meini prawf i'w halinio â'r hyn a ddysgwyd o'n [hadroddiad Yn Uchel ac yn Groch](#) a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020 y cyfeiriwyd ato yn ein hadroddiad diwethaf.

Mae'n bwysig iawn i ni fel sefydliad, ein bod yn dysgu gan y rhai rydym yn gweithio gyda nhw ond hyd yn oed yn bwysicach, ein bod yn defnyddio'r wybodaeth honno i lywio ein gwaith. Rydym wedi ystyried amcanion gwreiddiol Cronfa Waddol Gymunedol Sir y Fflint a Chronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru Sir y Fflint ac o fewn cyfyngiadau'r cronfeydd, rydym yn fodlon ein bod yn gallu cynnig cyllid craidd ochr yn ochr â chyllid prosiect am sawl blwyddyn ar yr amod bod ffocws y gwaith sydd i'w ariannu yn bodloni'r amcanion gwreiddiol hyn. Yn hollbwysig, gall grwpiau nawr wneud cais am gyllid craidd am hyd at dair blynedd

Nid yw'n hawdd rheoli cyllidebau ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol, yn enwedig yn yr hinsawdd ariannol ansicr yr ydym yn ei hwynebu ar hyn o bryd. Mae'r gyfradd twf gref a welwyd o fewn y cronfeydd dros y blynyddoedd diwethaf wedi helpu i gyflwyno'r ffordd newydd hon o weithio a fydd, drwy ei rheoli'n ofalus dros amser, yn dod yn fodel gweithio cynaliadwy. Rydym wedi creu model sy'n cydbwysu ein gallu i gefnogi grwpiau yn y tymor hwy gan sicrhau ar yr un pryd bod cyllid ar gael ar gyfer gwaith newydd a syniadau newydd.

Ochr yn ochr â dyfarnu grantiau, rydym wedi bod yn gweithio ar ddau brosiect cyffrous:

- Mewn partneriaeth â'r Comisiwn Elusennau, rydym yn galw ar ymddiriedolwyr i fwrw ati i geisio cymorth i ddatgloi potensial asedau segur yng Nghymru. Mae'r 'Rhaglen Adfywio Ymddiriedolaethau yng Nghymru' yn gobeithio datgloi hyd at £12 miliwn o gronfeydd elusennol segur yng Nghymru. Rydym yn cynnig cymorth i ymddiriedolwyr elusennau segur wneud defnydd da o'u



**Katy
Hales**
Director of
Philanthropy

cronfeydd elusennol. Gallwch ddarllen rhagor am y cynllun hwn drwy glicio [yma](#).

- Ydych chi wedi clywed am 'Brosiect Dysgu Gweithredol Pears' rydym wedi bod yn gweithio arno dros y blynyddoedd diwethaf? Ochr yn ochr â'r prosiect ehangach hwn i Ymddiriedolaethau a Sefydliadau, galluogodd Sefydliad Pears inni gynnig £2,000 i ddatgloi capasiti o fewn 25 o sefydliadau yn gyfnewid am gymryd rhan mewn ychydig o waith ymchwil a dysgu gweithredol. Mae chwech o'r sefydliadau hyn wedi'u lleoli yng Ngwent. Nid rhaglen grant gyffredin oedd hon, a'n nod oedd meithrin gwell dealltwriaeth o'r broses sydd ei hangen i sefydlu partneriaeth lwyddiannus rhwng y rhai sy'n cael grantiau a'r cyllidwyr gan ar yr un pryd nodi rhai arferion da y gellir eu rhannu ag eraill. Cadwch lygad am yr adroddiad gwerthuso a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod y 6 mis nesaf.

Ochr yn ochr â'n cronfeydd presennol, rydym wedi dosbarthu cyllid o'r cronfeydd newydd canlynol ledled Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

Cronfa Pobl Hŷn

Cafodd 27 o sefydliadau ledled Cymru grantiau o hyd at £5,000 y flwyddyn am hyd at 3 blynedd gan y Gronfa Pobl Hŷn. Cafodd un grŵp wedi'i leoli yn Sir y Fflint – Enbarr Foundation CIC – grant o £4,627.

Cronfa Cenedlaethau'r Dyfodol Cymdeithas Adeiladu'r Principality

Mae partneriaeth newydd â Chymdeithas Adeiladu'r Principality wedi ein galluogi i ddyfarnu gwerth dros £100,000 o grantiau i sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau cymunedol sy'n cefnogi pobl ifanc ledled Cymru. Cawsom lu o geisiadau o bob rhan o Gymru a llwyddodd 24 o sefydliadau'r trydydd sector i sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau blwyddyn o hyd. Cawsom 100 o geisiadau i'r rownd hon o gyllid, sy'n dangos yr angen aruthrol am gyllid i gefnogi pobl ifanc ledled Cymru. Caiff y ceisiadau llwyddiannus eu cyhoeddi yng nghanol mis Medi.

Cronfa Croeso Cenedl Noddfa

Lansiwyd y gronfa hon i godi arian i gefnogi elusennau, grwpiau cymunedol a sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl sydd wedi cyrraedd Cymru ar ôl cael eu dadleoli oherwydd gwrthdaro; gan ddarparu eitemau hanfodol iddynt a'u helpu i ymgartrefu yn eu hamgylchedd newydd. Cafodd ei chreu fel cronfa codi arian a chronfa waddol a fydd yn cefnogi pobl sy'n ceisio noddfa nawr ac yn y dyfodol. Cawsom gyfraniad o £1,000,000 gan Lywodraeth Cymru yn ystod wythnos gyntaf lansio'r gronfa ac rydym wedi codi arian yn barhaus ers hynny – [Cliciwch yma i ddarllen mwy am y gronfa hon](#).

Eich cymorth

Wyddech chi y gallwch ddod yn un o Gyfeillion Sefydliad Cymunedol Cymru? Dyma grŵp dyngarol unigryw sy'n helpu i newid bywydau yng Nghymru. Mae'r Cyfeillion yn dangos eu hymrwymiad i Genedl decach, fwy cyfwerth, gan annog ymdrechion i gydweithio fel cymuned a chefnogi'r rhai sydd ei angen fwyaf. Os oes gennych chi neu unrhyw un yr ydych yn ei adnabod ddiddordeb yn y fenter hon, cysylltwch â mi yn ddelfrydol drwy e-bost – katy@communityfoundationwales.org.uk neu gadewch neges ffôn gan nodi sut i gysylltu â chi ar 029 20379580 ac fe wnafeich ffonio yn ôl.

Katy Hales

Cyfarwyddwr Dyngarwch

Hanes y Gronfa

Sefydlwyd Cronfa Waddol Gymunedol Sir y Fflint ym mis Medi 2013 yn dilyn penderfyniad gan Gyngor Sir y Fflint i drosglwyddo'r asedau a gafwyd yn sgil cau ystod o gronfeydd ymddiriedolaeth hanesyddol a'u cyfuno yn un gronfa 'ymbarél' newydd o dan Sefydliad Cymunedol Cymru.

Lansiwyd y gronfa yn swyddogol ym mis Tachwedd 2013 yn Airbus ym Mrychdyn. Gwerth y gwaddol adeg trosglwyddo oedd £178,998. Mae'r gronfa hon bellach yn dod o dan Ymddiriedolaeth Sefydliad Cymunedol Cymru.

Ym mis Mawrth 2018, trosglwyddwyd Cronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru Clwyd hefyd i Sefydliad Cymunedol Cymru. Diben y Gronfa oedd darparu ar gyfer cronfeydd Deddf yr Eglwys yng Nghymru Sir y Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych. Gwerth y gronfa adeg trosglwyddo oedd £537,497. Cyngor Sir y Fflint yw Ymddiriedolwr y gronfa hon o hyd.

Mae'r ganran ddosbarthu yn seiliedig ar y boblogaeth fel a ganlyn:

- Sir Ddinbych – 25.4%
- Sir y Fflint – 40.3%
- Wrecsam – 34.3%

Cafodd Sefydliad Cymunedol Cymru gyfarwyddyd hefyd i ymgymryd â'r elfen rhoi grantiau ar gyfer Sir y Fflint, gan ddefnyddio sgiliau'r panel a sefydlwyd eisoes ar gyfer y Gronfa Waddol Gymunedol.

Yn 2019, yn dilyn trafodaethau gyda Chyngor Sir Wrecsam, gwnaethom hefyd ymgymryd â'r elfen rhoi grantiau ar gyfer Wrecsam, gan ddefnyddio sgiliau'r panel a sefydlwyd ar gyfer Cronfa Waddol Gymunedol Wrecsam.

Rydym yn gwneud taliad i Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer rhoi grantiau gan mai Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych sy'n ymgymryd ag elfen rhoi grantiau'r gronfa ar gyfer Sir Ddinbych.

Er nad oedd y trosglwyddiad yn ymwneud â Chyngor Sir, yn 2013 trosglwyddwyd gwaddol Cronfa Gymorth Penarlâg a'r Cylch i ni, a oedd yn werth £255,594. Mae'r gwaith o roi grantiau ar gyfer y gronfa yn cael ei reoli'n fewnol gan dîm grantiau Sefydliad Cymunedol Cymru. Fel y mae'r enw'n awgrymu, mae'r Gronfa'n cefnogi'r rhai hynny ym Mhenarlâg a'r Cylch a all fod mewn argyfwng a/neu'n fregus ac sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi ag adnoddau cyfyngedig. Nodir rhestr o'r grantiau o'r gronfa hon ar Dudalen 18.

Trosolwg

Dyfernir grantiau Cronfa Waddol Gymunedol Sir y Fflint a Chronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru Sir y Fflint (Cronfeydd Sir y Fflint) ddwywaith y flwyddyn.

Mae gan y gronfa ei phanel grantiau ei hun sy'n cynnwys pum aelod, pob un â gwybodaeth a phrofiad helaeth o'r anghenion yn Sir y Fflint, ac mae'n canolbwyntio'n benodol ar addysg a chymuned, gan fod amcanion y ddwy gronfa yn ymwneud â'r meysydd hyn.

Enwebir yr aelodau gan y Cyngor ac maent yn gwasanaethu am o leiaf dair blynedd.

Roedd yr aelodau yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf fel a ganlyn:

- Fiona Mocko, Cynghorydd Polisi Strategol, Cyngor Sir y Fflint
- Trevor Jones, Swyddog Cyngor Sir y Fflint yn yr Adran Addysg
- Y Cyngh. Christopher Bithell, Cyngor Sir y Fflint
- Y Cyngh. Clive Carver, Cyngor Cymunedol Penarlâg a Chyngor Sir y Fflint
- Heather Hicks, Cyngor Gwirfoddol Sir y Fflint.

Caiff y panel ei gadeirio gan uwch-aelod o staff Sefydliad Cymunedol Cymru. Cyflwynir argymhellion y panel i fwrdd ymddiriedolwyr Sefydliad Cymunedol Cymru sy'n adolygu ac yn cadarnhau penderfyniadau grant. Mae mewnbwn a gwybodaeth aelodau'r panel wedi bod yn amhrisiadwy ac mae'n sicrhau bod yr holl benderfyniadau grant yn cael eu gwneud yn lleol ac yn cael eu llywio gan wybodaeth am anghenion a blaenoriaethau lleol.

Dyfernir yr holl grantiau yn ddarostyngedig i delerau ac amodau llym a chânt eu monitro ar ôl deuddeg mis i sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau'r grant ac i fesur effaith y grantiau ar unigolion a chymunedau.

Adroddiad Ariannol

Portffolio Buddsoddi

Mae'r Sefydliad yn gweithredu polisi cyfanswm enillion ar gyfer ei bortffolio buddsoddi. Mae hyn yn golygu y caiff unrhyw incwm ei ailfuddsoddi, gan arwain at dwf mwy yn y gronfa yn y tymor hwy. Bob blwyddyn mae Ymddiriedolwyr y Sefydliad yn penderfynu pa ganran o werth marchnad y gronfa fydd ar gael i'w rhoi ar ffurf grantiau. Gall y ganran hon amrywio yn dibynnu ar iechyd y gronfa, y galw am gyllid ac amodau presennol y farchnad. Yn 2020/21 gwnaethom ddsbarthu 3.5% ac yn 2021/22, 4%. Er mwyn gallu dyfarnu grantiau dros gyfnod o sawl blwyddyn, byddwn yn cynyddu'r ganran i'w dosbarthu i 5% yn 2022/23.

Perfformiad hyd yn hyn

Yn ystod 2020/21, llwyddodd ein portffolio buddsoddi i drawsnewid yn rhyfeddol o'r cyfnod llwm a brofwyd yn 2019/20 o ganlyniad i bandemig COVID. Erbyn diwedd mis Mawrth 2021, llwyddwyd i adfer gwerth y gronfa ac roedd gwerth y gronfa ar ddiwedd y flwyddyn yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig, gyda chyfanswm portffolio buddsoddi Sefydliad Cymunedol Cymru werth £20m. Parhaodd y twf economaidd cadarnhaol hwn drwy gydol 2021.

Ar ddechrau 2022, roeddem yn disgwyl i'r twf economaidd cadarnhaol a welwyd yn 2021 barhau, ond ar gyfradd arafach a chafodd hyn ei adlewyrchu yn y prisiad o'r portffolio buddsoddi ym mis Mawrth 2022, sef £21.5m.

Rhagolwg

Bellach, chwyddiant a risgiau geowleidyddol yw ein prif bryderon. Darparodd llywodraethau a banciau canolog lefelau digynsail o gymorth yn ystod y pandemig ac mae hyn, ynghyd ag ymyriadau yn y gadwyn gyflenwi, prisiau nwyddau uwch a phwysau twf cyflogau, wedi creu'r lefelau chwyddiant uchaf ers degawdau. Gwnaeth ymosodiad Rwsia ar Wcráin ym mis Chwefror greu ansicrwydd ychwanegol.

Mae'n bosibl y bydd marchnadoedd yn parhau'n ansefydlog am beth amser ac y bydd rhywfaint o wyro o'r enillion meincnodol yn y tymor byr gan y bydd y rhagolygon ar gyfer chwyddiant uwch yn cael effaith negyddol ar y cwmnïau o ansawdd uchel sydd yn y sefyllfa orau i ymdopi â'r mater yn y tymor hir. Ond bydd ein ffocws ar gwmnïau o ansawdd uchel yn briodol fel strategaeth buddsoddi tymor hir, oherwydd eu hansawdd sylfaenol. Credwn fod cyfleoedd twf yn bodoli o hyd i brif economïau'r byd yn y cyfnod 'ar ôl COVID', a dylai hyn sicrhau bod elw corfforaethol yn parhau i dyfu.



Datganiad Cronfa Waddol Gymunedol Sir y Fflint

	2020/21	2021/22	2022/23
Balans y Gronfa ar 1 Ebrill	201,685	251,396	264,831
<u>Grantiau</u>			
Grantiau a dalwyd yn ystod y flwyddyn	(2,756)	(4,000)	
Llai: talwyd yn ystod y flwyddyn ond dyfarnwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol	-	-	
Gan ychwanegu: dyfarnwyd ond heb eu talu yn ystod y flwyddyn	-	(6,000*)	
Grantiau a gafodd eu dychwelyd	-	-	
<u>Ffioedd gweinyddol</u>			
Ffi weinyddol flynyddol @ 1.25%	(2,852)	(3,372)	
Grantiau ffioedd gweinyddol @ 10%	(236)	(400)	
<u>Perfformiad buddsoddiad</u>			
Incwm o fuddsoddiad	4,862	5,299	
Enillion buddsoddiad	50,693	21,908	
Balans y Gronfa ar 31 Mawrth	251,396	264,831	I'w gadarnhau
<i>Yn unol â'r datganiadau ariannol</i>			
Arian ar gael i'w ddsbarthu			
Balans ar 30 Medi (y flwyddyn flaenorol)	222,006	228,157	269,780
Dosbarthiad %	3.5%	4%	5%

Ar gael i'w ddsbarthu	7,770	9,126	13,489
Grantiau amlflwyddyn a ddyfarnwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf	-	-	(3,000**)
Grantiau amlflwyddyn a ddyfarnwyd 2 flynedd yn ôl	-	-	-
Grantiau amlflwyddyn a ddyfarnwyd 3 blynedd yn ôl	-	-	-
Cyfanswm y grantiau sydd ar gael i'w dyfarnu yn ystod y flwyddyn	7,770	9,126	10,489

*3 x £1000 fesur grantiau amlflwyddyn (3 blynedd) a ddyfarnwyd felly mae £3,000 pellach wedi'i ymrwymo ym mhob un o'r ddwy flwyddyn ganlynol.

** £3,000 gan mai yn 2021/22 y dyfarnwyd yr ail flwyddyn o grantiau amlflwyddyn

Datganiad Ariannol Cronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru Clwyd

	2020/21	2021/22	2022/23
Balans y Gronfa ar 1 Ebrill	522,257	652,132	710,019
<u>Grantiau</u>			
Grantiau a dalwyd yn ystod y flwyddyn	(6,570)	(13,306)	
Llai: talwyd yn ystod y flwyddyn ond dyfarnwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol		-	
Gan ychwanegu: dyfarnwyd ond heb eu talu yn ystod y flwyddyn	-	(1,000*)	
Grantiau a gafodd eu dychwelyd	-	-	
<u>Ffioedd gweinyddol</u>			
Ffi weinyddol flynyddol @ 1.25%	(7,378)	(8,748)	
Grantiau ffioedd gweinyddol @ 10%	(697)	(1,431)	
<u>Perfformiad buddsoddiad</u>			
Incwm o fuddsoddiad	12,597	14,025	
Enillion buddsoddiad	131,883	68,346	

	652,132	710,019	I'w gadarnhau
Balans y Gronfa ar 31 Mawrth			

Yn unol â'r datganiadau ariannol

Arian ar gael i'w ddsbarthu

Balans ar 30 Medi (y flwyddyn flaenorol)	581,796	590,243	699,822
Dosbarthiad %	3.5%	4%	5%
Ar gael i'w ddsbarthu	20,363	23,610	34,991

Grantiau amlflwyddyn a ddyfarnwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol

Cyfanswm y grantiau sydd ar gael i'w dyfarnu yn ystod y flwyddyn

-	-	-
20,363	23,610	34,991

Dyrannwyd gan y Cyngor

Wrecsam 34.3%

Sir y Fflint 40.3%

Sir Ddinbych 25.4%

6,984	8,098	12,002
8,206	9,515	14,101
5,172	5,997	8,888
20,363	23,610	34,991

*Ni thalwyd oherwydd amod grant nas bodlonwyd.

Crynodeb o'r grantiau a ddyfarnwyd

Cronfa Waddol Gymunedol Sir y Fflint

2020/21 – Ni chafwyd unrhyw geisiadau yn Gymraeg yn y rownd hon.

Ymgeisydd	Crynodeb o'r Grant	Cyfanswm a Ddyfarnwyd	Talwyd	Taliadau wedi'u trefnu ar gyfer y dyfodol	Taliadau wedi'u trefnu ar gyfer y dyfodol
Menyw	Grant Chwaraeon	£200	£200	£0	£0
Menyw	Grant Chwaraeon	£200	£200	£0	£0
Dyn	Grant Chwaraeon	£200	£200	£0	£0
Dyn	Grant Chwaraeon	£200	£200	£0	£0
Cyfeillion Ysgol Maes Hyfryd	Mae'r prosiect yn cefnogi datblygiad addysgol ac yn cefnogi unigolion ag anhwylder prosesu synhwyraidd. Mae'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau allweddol cyfathrebu, gwybyddiaeth, annibyniaeth, datblygiad corfforol, hunanofal ac ymatebion synhwyraidd, y mae pob un ohonynt yn sgiliau trosglwyddadwy sy'n paratoi disgyblion ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r ysgol.	£956	£956	£0	£0
Techniquet Glyndwr (enw masnachu Gwyddoniaeth Gogledd Cymru)	Cynhaliodd y prosiect weithdai mewn pedair ysgol gynradd yn ardal Sir y Fflint i fyfyrwyr Cyfnod Allweddol 2 a'u teuluoedd. Mae'r prosiect e-Bug yn annog byw'n iach drwy gynnwys y plant a'r oedolion mewn	£1,000	£1,000	£0	£0

	gweithgareddau ymarferol sy'n dangos pwysigrwydd arferion hylendid da ac yn hysbysu pawb am ddefnyddio gwrthfotigau mewn ffordd briodol. Mae'r prosiect e-Bug yn annog datblygiad addysgol plant oed ysgol, 7-11 oed yn bennaf, gan ddefnyddio techneg ddysgu anffurfiol.				
		£2,756	£2,756	£0	£0

2021/22 – Cafwyd un cais yn Gymraeg allan o naw cais (11%). Roedd y cais yn llwyddiannus.

Ymgeisydd	Crynodeb o'r Grant	Cyfanswm a Ddyfarnwyd	Talwyd	Taliadau wedi'u trefnu ar gyfer y dyfodol 2022/23	Taliadau wedi'u trefnu ar gyfer y dyfodol 2023/24
Clwb Ju Jitsu Bwcle	Mae'r Clwb Ju Jitsu yn helpu pobl ifanc i oresgyn bwlio ac iechyd meddwl gwael. Mae'n dysgu sgiliau bywyd drwy wella eu hyder a'u sgiliau cymdeithasol.	£1,000	£1,000	£0	£0
Emerge Community Arts	Mae Emerge Community Arts yn cynnal prosiectau cerddoriaeth a chelfyddydau perfformio sy'n cefnogi pobl ifanc ac oedolion ag anableddau dysgu a/neu broblemau iechyd meddwl.	£3,000	£1,000	£1,000	£1,000
Gwarchod Ceffylau Gogledd Cymru	Mae Gwarchod Ceffylau Gogledd Cymru yn cynnig cyngor a chymorth i gymunedau ceffylau a chymunedau gwledig. Yn gwneud cais am gyllid amflwyddyn er mwyn helpu i dalu am adnoddau addysgol a marchnata prosiectau.	£3,000	£1,000	£1,000	£1,000

Speakers for Schools	Mae Speakers for Schools yn ymrwymedig i gefnogi symudedd cymdeithasol pobl ifanc sy'n wynebu anfantais. Drwy flaenoriaethu'r rheini â'r angen mwyaf, a gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, busnesau ac arweinwyr diwydiant lleol, maent yn gweithio i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i gymunedau.	£3,000	£1,000	£1,000	£1,000
		£10,000	£4,000	£3,000	£3,000

Cronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru Clwyd

2020/21 – Ni chafwyd unrhyw geisiadau yn Gymraeg yn y rownd hon.

Ymgeisydd	Crynodeb o'r Grant	Cyfanswm a Ddyfarnwyd	Talwyd	Taliadau wedi'u trefnu ar gyfer y dyfodol	Taliadau wedi'u trefnu ar gyfer y dyfodol
Eglwys Sant Bartholomew	Mae'r prosiect hwn yn galluogi'r eglwys i aildrefnu'r adeilad er mwyn gallu cynnig mwy o weithgareddau i'r cymunedau lleol. Addaswyd y prosiect hwn yn sgil cyfyngiadau Covid er mwyn creu canolfan galw heibio a oedd yn cydymffurfio â'r gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol er mwyn galluogi'r gymuned i ddod at ei gilydd.	£1,000	£1,000	£0.00	£0.00
		£1,000	£1,000	£0.00	£0.00

Cronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru Wrecsam	Grantiau i grwpiau yn Wrecsam	£500	£500	£0.00	£0.00
Cronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru Sir Ddinbych	Grant i Gyngor Sir Ddinbych sy'n dosbarthu'r cyllid hwn	£5,070	£5,070	£0.00	£0.00
		£6,570	£6,570	£0.00	£0.00

2021/22 – Cafwyd un cais yn Gymraeg allan o chwe chais (16%). Roedd y cais yn llwyddiannus.

Ymgeisydd	Crynodeb o'r Grant	Cyfanswm a Ddyfarnwyd	Talwyd	Taliadau wedi'u trefnu ar gyfer y dyfodol 2022/23	Taliadau wedi'u trefnu ar gyfer y dyfodol 2023/24
Eglwys yr Holl Saint, Ffynnongroyw, rhan o Ardal Genhadol Bryn a Môr, Esgobaeth Llanelwy	Mae Eglwys yr Holl Saint yn cefnogi'r gymuned gyfan o bob oed. Mae'r cais ar gyfer prynu cadeiriau pentyrru, bwrdd plygadwy ac adnoddau ar gyfer mentrau crefft.	£1,000	£1,000	£0.00	£0.00
Capel Bethesda, Yr Wyddgrug	Cais am grant i adnewyddu allanfa dân yr Eglwys i wneud yr ystafell sy'n cael ei rhentu i'r gymuned yn fwy diogel i bawb ei defnyddio.	£1,000	£0.00	£0.00	£0.00
Eglwys Gymunedol RiverDee	Mae Eglwys Gymunedol RiverDee yn gweithio gydag unigolion a grwpiau o bob oed i gefnogi iechyd meddwl a llesiant yn y gymuned. Bydd y cyllid yn helpu i dalu cost prydau misol.	£1,000	£1,000	£0.00	£0.00

Grŵp Sgowtiaid a Geidiaid Saltney Ferry	Mae Grŵp Sgowtiaid a Geidiaid Saltney Ferry yn darparu gweithgareddau i blant a phobl ifanc. Bydd y cyllid yn helpu i dalu costau hyfforddiant ar gyfer trwydded dringo creigiau, offer chwaraeon ac offer diogelwch.	£1,000	£1,000	£0.00	£0.00
Eglwys Sant Paul	Bydd y cyllid yn helpu i dalu i osod toiled a chegin.	£1,000	£1,000	£0.00	£0.00
Grŵp Sgowtiaid Treffynnon Cyntaf	Mae Grŵp Sgowtiaid Treffynnon Cyntaf yn darparu gweithgareddau i blant a phobl ifanc, gan feithrin sgiliau newydd a datblygu sgiliau sy'n bodoli eisoes. Bydd y cyllid yn helpu i dalu am benwythnos preswyl.	£1,000	£1,000	£0.00	£0.00
		£6,000	£5,000	£0.00	£0.00

Cronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru Wrecsam	Grantiau i grwpiau yn Wrecsam	£1,750	£1,750	£0.00	£0.00
Cronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru Sir Ddinbych	Grant i Gyngor Sir Ddinbych sy'n dosbarthu'r cyllid hwn	£6,556	£6,556	£0.00	£0.00
		£14,306	£13,306	£0.00	£0.00

Cronfa Gymorth Penarlâg a'r Cylch

Math	Ymgeisydd am Grant	Crynodeb o'r Grant	Swm
Unigolyn	Menyw	Grant Argyfwng	£750
Unigolyn	Menyw	Grant Argyfwng	£270
Unigolyn	Menyw	Grant Argyfwng	£1,000
Unigolyn	Menyw	Grant Argyfwng	£775
Unigolyn	Dyn	Grant Argyfwng	£690
Unigolyn	Menyw	Grant Argyfwng	£1,300
Unigolyn	Menyw	Grant Argyfwng	£1,040
Unigolyn	Menyw	Grant Argyfwng	£615
Unigolyn	Menyw	Grant Argyfwng	£380
Unigolyn	Menyw	Grant Argyfwng	£735
Unigolyn	Menyw	Grant Argyfwng	£2,100
Unigolyn	Menyw	Grant Argyfwng	£287

Cyfanswm y grantiau a ddyfarnwyd ers yr adroddiad effaith diwethaf - £9,942

Astudiaethau achos

Cafodd Grŵp Sgowtiaid a Geidiaid Saltney Ferry grant o £1,000 gan Gronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru Sir y Fflint (Clwyd) i ddarparu hyfforddiant ac offer a fyddai'n eu galluogi i gynnig amrywiaeth fwy o weithgareddau i'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw. Mae'r grŵp yn cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad corfforol, deallusol, cymdeithasol, emosiynol ac ysbrydol i bobl ifanc er mwyn iddynt feithrin eu sgiliau a'u gwydnwch i'w helpu i gymryd rhan adeiladol mewn cymdeithas fel dinasyddion cyfrifol, gan fynd ati'n aml i gynrychioli eu hunain, eu teulu, eu grŵp a'u cymuned mewn digwyddiadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae'r grŵp yn cynnal gweithgareddau wythnosol gan gynnwys gwersylla, caiacio, dringo, saethyddiaeth, saethu targedau, hwylio, heicio, teithiau, heriau, arweinyddiaeth ieuentid a mwy. Roedd y grant hwn yn benodol ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth dringo a chaiacio/canŵio. Mae'r grant wedi ariannu pedwar arweinydd i fynychu cwrs dringo ac wedi talu cost trwydded i'w galluogi i roi'r hyn maent wedi'i ddysgu ar waith. Bydd hyn yn helpu'r grŵp i ddarparu'r gweithgaredd hwn am gost is i'r plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu'r grwpiau gan na fydd angen talu am gymorth proffesiynol allanol.

Ar ddechrau'r flwyddyn, aeth y grŵp ar daith gyffrous iawn, gan fynd â 14 o blant ar antur caiacio/canŵio i lawr Afon Gwy, gan deithio dros 32 o filltiroedd. Defnyddiwyd y grant hefyd tuag at gost cymhorthion hynofedd a chotiau 'cagoule' er mwyn sicrhau bod gan y plant y cyfarpar a'r dillad cywir i gymryd rhan yn y gweithgaredd hwn. Dysgodd y plant a'r bobl ifanc sgiliau newydd, gan herio eu hunain i wneud pethau newydd er mwyn gwella eu hyder a'u hunan-barch. Gwnaethant ddysgu sut i aros yn ddiogel fel unigolion yn ogystal â sut i gadw llygad am eraill a allai fod mewn trafferth. Mae llawer mwy o weithgareddau ar y gweill gan fod ganddynt bellach fwy o offer a bod gan y gwirfoddolwyr fwy o sgiliau i arwain gwahanol weithgareddau.



Mae **Emerge Community Arts** yn cefnogi pobl ifanc ac oedolion sydd ag anableddau dysgu a/neu broblemau iechyd meddwl er mwyn atal ynysigrwydd a'u helpu i ddysgu sgiliau newydd. Cawsant grant o £3,000 gan Gronfa Waddol Gymunedol Sir y Fflint dros gyfnod o 3 blynedd er mwyn helpu i dalu costau cyflogi technegydd cerdd ar gyfer prosiect Sound Express. Mae Sound Express yn fand unigryw lle mae gan bawb yn y band anabledd dysgu.

Mae'r band yn ysgrifennu ac yn recordio ei gerddoriaeth ei hun ac yn cyfarfod yn wythnosol i ymarfer a pherfformio i'r gymuned leol. Mae un o'r gwirfoddolwyr, sy'n wynebu risg o ynysigrwydd cymdeithasol a diweithdra tymor hir oherwydd problemau iechyd meddwl ac anawsterau cyfathrebu cymdeithasol, wedi bod yn dysgu gyda nhw dros y 3 blynedd diwethaf gan ddatblygu ei sgiliau cynhyrchu sain/cerddoriaeth. Ym mis Medi, llwyddodd i gael ei gyflogi gan Emerge Community Arts am ddiwrnod yr wythnos er mwyn helpu'r band i recordio fel rhan o fenter lleoliad gwaith.

Ers derbyn yr arian, mae'r band wedi perfformio mewn tair cyngerdd. Mae'r band yn fwy cynhyrchiol gan fod technegydd ar gael i'w helpu yn ystod ymarferion a chyngherddau. Mae'r technegydd wedi gwella ansawdd y band gan ei fod yn gallu addasu a mesur y sain wrth iddynt berfformio. Mae newid enfawr wedi bod yn y technegydd cerdd ers iddo gael ei gyflogi a hoffai ymgymryd â gwaith pellach er mwyn datblygu mwy o sgiliau. Mae wedi dechrau'r broses recordio gyda'r band, ac maent wrthi'n recordio eu cân gyntaf 'Bob can't get a job!'. Mae'r feddalwedd recordio wedi bod yn her. Torrodd y gliniadur a ddefnyddiwyd ar gyfer recordio, felly bu'n rhaid iddynt aros ychydig wythnosau am un arall.





Sefydliad Cymunedol Cymru
Tŷ St Andrews
24 St Andrews Crescent
Caerdydd
CF10 3DQ

02920 379580

www.sefydliadcymunedolcymru.org.uk



info@communityfoundationwales.org.uk



[@foundationwales](https://twitter.com/foundationwales)



[@cfwales](https://facebook.com/cfwales)

Rhif Elusen 1074655

Rhif y Cwmni 03670680

Sefydliad Cymunedol Cymru yw enw masnachu r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru